Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 399

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cais Ffilmio S4C & ITV Wales Operation Scotney**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**
Cais ffilmio ar gyfer cyfres ar gyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru, a gynhyrchwyd gan Adran Iaith ITV Cymru. Bydd y gyfres yn ymdrin â thri chyffur: Canabis, Cetamin, a Chocên. Bydd pob pennod yn cael ei darlledu ar S4C. Bydd ITV hefyd yn pecynnu elfennau o'r rhaglen ar gyfer cynnwys Saesneg ar Rwydwaith ITV, ac ITV Cymru.
Pwrpas y gyfres yw dangos golwg gytbwys a myfyriol ar y sefyllfa bresennol o ran defnyddio a dosbarthu cyffuriau yng Nghymru heddiw, a sut mae hyn yn effeithio ar y cyhoedd, pobl yn y diwydiant yn ogystal â'n gwasanaethau brys. Ar gyfer y bennod ar gocên, mae cynhyrchwyr yn edrych ar ddefnyddio cocên yn benodol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Maent wedi nodi yn eu cais bod eu hymchwil wedi canfod hanesion anecdotaidd ar draws trefi gwledig, bod defnyddio cocên yn rhemp. Mae cynhyrchwyr yn gofyn am gyfweliad ag aelod o heddlu Dyfed Powys, i glywed ychydig mwy am brofiadau a chanfyddiadau Heddlu Dyfed-Powys ar draws yr ardaloedd gwledig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran dosbarthu a defnyddio cocên. Maen nhw hefyd wedi gofyn i archwilio'r posibilrwydd o ddilyn yr heddlu mewn cyrch cocên fel rhan o'r rhaglen.

**Argymhelliad:** Bod y Comisiynydd yn cefnogi a derbyn y cais ffilmio gan ITV Wales ac S4C.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dvddiad**: 14/07/2025